

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion **Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 20 Gorffennaf 2026** yn rhithwir trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am **09:00**.

Cynghorydd

Dylan Rees (Cadeirydd)
Mark Young (Dirprwy Gadeirydd)
Bryan Apsley
Tina Claydon
Paul Cunningham
Ann Davies
Jeff Evans
Chrissy Gee
Ian Hodge
Alan Hughes
Chris Hughes
John Brynmor Hughes
Gareth R Jones
John Ifan Jones
Charlie McCoubrey
Gwynfor Owen
Beverley Parry-Jones
Arwyn Herald Roberts
Austin Roberts
Rondo Roberts
Gareth Sandilands
Dale Selvester
Gareth Williams
Siân Williams
Antony Wren

Yn cynrychioli

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx
Justin Evans
Helen MacArthur
Anthony Jones
Dafydd Edwards
Gareth Owens
Matt Powell
Elgan Roberts
Steve Morris
Llinos Evans
Heledd Davies
Ffion Evans
Lisa Allington

Prif Swyddog Tân (PST)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Trysorydd
Clerc a Swyddog Monitro
Dirprwy Clerc a Swyddog Monitro
Pennaeth Cyllid a Chaffael
Pennaeth TGCh
Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Gwasanaethau Cyfieithu Atebol
Cynorthwydd Gweithredol
Gwasanaethau Aelodau

1 PENODI CADEIRYDD 2026/27

1.1 Gwahoddodd Clerc yr Awdurdod enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Derbyniwyd enwebiad gan y Cynghorydd Mark Young ar gyfer y Cynghorydd Dylan Rees a eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Sandilands.

1.2 Cynhaliwyd pleidlais gyda 25 Aelod o blaid a dim ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

1.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Y dylid penodi'r Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2026-27.

2 YMDDIHEURIADAU

Enw

Paul Rogers
Carol Beard

Yn cynrychioli

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawyd y Cynghorydd Siân Williams i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

3.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2026/27

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd newydd enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod. Derbyniwyd enwebiad gan y Cynghorydd Arwyn Hearld Roberts ar gyfer y Cynghorydd Mark Young a eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Sandilands.

4.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 25 Aelod o blaid a dim ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

4.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Penodi'r Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2026-27;

5 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2026/27

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Derbyniwyd enwebiad gan y Cynghorydd Tina Claydon ar gyfer y Cynghorydd Gareth Sandilands a eiliwyd gan y Cynghorydd Mark Young.

5.4 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 25 Aelod o blaid a dim ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar unwaith.

5.5 PENDERFYNWYD:

i) Penodi'r Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2026/27;

6 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2026/27

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio. Derbyniwyd enwebiad gan y Cynghorydd Gareth Sandilands ar gyfer y Cynghorydd Tina Claydon a eiliwyd gan y Cynghorydd Jeff Evans.

6.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 25 Aelod o blaid a dim ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Tina Claydon yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar unwaith.

6.2 PENDERFYNWYD:

ii) Penodi'r Cynghorydd Tina Claydon yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2026/27;

7 HYSBYSIAD O FATERION BRYD

7.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

8 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB GAN YMGORFFORI PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

8.1 Cyflwynodd y Clerc y papur mewn perthynas ag aelodaeth yr Awdurdod gan ymgorffori Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol. Roedd y papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i nodi aelodaeth yr Awdurdod a'i bwyllgorau, a oedd wedi newid ers y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

8.2 Nodwyd bod pedwar newid aelodaeth wedi bod i'r Awdurdod ers y flwyddyn flaenorol. Roedd argymhelliad hefyd i gynyddu nifer yr Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau dros dro, pe bai digon o ymgeiswyr yn cael eu derbyn, er mwyn arbed recriwtio pellach y flwyddyn nesaf.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol; a**
- ii) **Cytuno i gynyddu nifer y seddi Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau dros dro, os ceir digon o ymgeiswyr.**

9 **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2026/27**

9.1 Cyflwynodd y Clerc ddyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2026-27 i'r Aelodau. Nodwyd, lle bo hynny'n bosibl, bod awdurdodau lleol wedi cytuno i osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd cyngor a chyfarfodydd llawn yr Awdurdod.

9.2 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.**

10 **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU**

10.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau a oedd yn rhoi gwybod iddynt am gyfraddau presennol cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac yn gofyn iddynt gymeradwyo'n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

10.2 Nododd y Clerc fod eitem frys ar gydnabyddiaeth wedi'i gofyn ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan y bydd angen ystyried cyfraddau cyflog yr awdurdod newydd yn dilyn etholiadau Mai 2027.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

- i) **Nodi penderfyniadau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ynghylch lwfansau a thaliadau cydnabyddiaeth aelodau o 1 Ebrill 2026;**
- ii) **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddarau atodlen tâl aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i atodlen 2026/27 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**
- iii) **Cymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2025/26 fel sy'n ofynnol gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau.**

11 **MATERION BRYS**

11.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben: 09.24 o'r gloch